Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Awst 2005

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud
@crc-wmc.org.uk

Gadael yn Dawel Eu Cydwybod?

Pan aeth cwmni Reed, sy'n arbenigo mewn recriwtio, ati i gyflawni arolwg, fe wnaethon nhw ddarganfod bod mwy na hanner gweithwyr Prydain yn cymryd llai o ddiwrnodau i ffwrdd nag y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw, gyda llawer yn ofni y bydd amser i ffwrdd o'r swyddfa'n niweidio eu lle yn y cwmni.

Fel rheolwr, mae'n bur debyg eich bod chi dan bwysau oherwydd bod gennych chi fylchau ychwanegol i'w llenwi yn ystod y tymor gwyliau yma. A fyddwch chi'n bradychu'ch teimladau p'un a fyddwch chi'n gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw'ch staff yn teimlo'n euog am gymryd seibiant am gwpl o wythnosau?

Cymhariaeth Deg?

Nodwyd yn ddiweddar yn yr Harvard Business Review uchel ei barch bod "strategwyr" wrth eu bodd yn defnyddio cyfatebiaethau i ddisgrifio neu ddadansoddi senarios busnes, ac mai prin y byddan nhw'n edrych am resymau pam nad yw cymhariaeth benodol yn ddilys efallai.

A fyddwch chi'n tueddu i seilio'ch penderfyniadau ar set o gyfatebiaethau hwylus sy'n symleiddio'ch byd busnes? Os felly, pryd oedd y tro diwethaf y gwnaethoch chi bwyllo i bendroni ynghylch pa mor fanwl-gywir yw'r cyfatebiaethau yma mewn gwirionedd?

Siopa o Gwmpas?

Mae rhai siopau'r stryd fawr yn y gorffennol wedi manteisio ar awra o ansawdd ac ymdeimlad o gynefindra heb ddarparu unrhyw beth arbennig o ran creadigrwydd neu bris o reidrwydd.

Ydy hyn yn nodwedd o'r arferion caffael yn eich cwmni chi? Ydy hi'n well gennych chi siopa yn eich parth cysur, gan dalu mwy nag sy'n angenrheidiol i'ch cyflenwr arferol am gynnyrch canolig ei ansawdd yn hytrach na mentro i siopa am rywbeth mwy cyffrous ac effeithiol am well pris, oherwydd y gallai hynny achosi gormod o ffwdan?

Ailddarllen CVs

Unwaith y bydd ymarfer recriwtio wedi dod i ben, y tueddiad yw ffeilio CVs ymgeiswyr llwyddiannus ac anghofio amdanyn nhw, gan fod rheolwyr yn meddwl y byddan nhw'n cofio popeth y mae angen iddyn nhw eu gwybod am gymwysterau penodol yr ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Ond beth am holl sgiliau a phriodoleddau eraill yr ymgeisydd – sydd wedi'u hamlinellu'n eglur yn y C unrhyw gost ychwanegol pe byddai'r unigolyn hwnnw'n cael cyfle i'w defnyddio? Ydych chi, yn ddiweddar, wedi ailddarllen CVs sydd wedi'u ffeilio i weld pa ddoniau a allai fod yn mynd yn ofer yn eich tîm?

Gair i Gall

Yn ôl llenor o fri y 18fed ganrif, Dr Samuel Johnson: "Pan fydd rhywbeth yn cael ei ysgrifennu'n ddiymdrech fe fydd, yn gyffredinol, yn cael ei ddarllen heb bleser."

A fyddwch chi'n sicrhau bod eich staff yn gwerthfawrogi grym geiriau mewn du a gwyn, a'u bod yn defnyddio hyn yn effeithiol fel rhan o'u gwaith, yn enwedig yn yr oes yma o gyfathrebu tra chyflym trwy e-bost? Ynteu a fyddan nhw'n cymryd hyn yn ganiataol, ac yn gwastraffu cyfleoedd trwy lunio testun yn ddiofal gan fethu â chyfleu'r gwir ystyr?

Gwefannau Rheolaeth

Living in the Corporate Zoo

Mae'r llyfr yma wedi bod o gwmpas ers cryn amser bellach, ond mae yr un mor bwysig er gwaethaf hynny. Ynddo, mae Richard Scase yn diffinio'r byd gwaith newydd, neu'r "s corfforaethol" rydym ni'n byw ynddo. Mae'n llyfr symbylol iawn ar faterion sy'n effeithio arnom ni oll, ac mae'n rhoi cipolwg ar y ffordd y mae ein bywydau gwaith eisoes yn newid a'r ffordd y byddan nhw'n newid yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd nesaf. Sgiliau Richard yw crynhoi'r cysylltiadau hynny y mae llawer ohonom ni'n gyfarwydd â nhw ond nad ydym ni o reidrwydd yn eu llunio. Llyfr diddorol tu hwnt i'w ddarllen."

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth